

Etholiadau Ilywodraeth leol 2017 yng Nghymru

Adroddiad ar weinyddu'r etholiadau a gynhaliwyd ar 4 Mai 2017

Medi 2017

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwyllo etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb.

Cynnwys

| | |
|---|-----------|
| Rhagair | 1 |
| Crynodeb..... | 3 |
| 1 Etholiadau llywodraeth leol 2017 yng Nghymru | 5 |
| 2 Cofrestru a'r nifer a bleidleisiodd | 6 |
| 3 Cynllunio | 7 |
| 4 Deddfwriaeth a'r papur pleidleisio | 8 |
| 5 Ein hymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd..... | 11 |
| 6 Gweinyddu'r etholiadau | 15 |
| 7 Ymgeiswyr ac ymgyrchwyr | 19 |
| 8 Uniondeb etholiadol..... | 23 |
| 9 Casgliadau a'r camau nesaf | 24 |
| Atodiad A: Methodoleg ymchwilio..... | 25 |

Rhagair

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno'r adroddiad etholiadol cyntaf yn rhinwedd fy rôl fel Comisiynydd Etholiadol Cymru.

Ddydd Iau 4 Mai, 2017, cynhaliwyd etholiadau ym mhob un o'r 22 o ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru. Dyma ein hadroddiad ar y ffordd y cafodd yr etholiadau hynny eu gweinyddu – mae'r Comisiwn yn llunio adroddiad ar wahân ar etholiad Senedd y DU a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2017.

Mae'n bleser gennyf ddweud bod y dystiolaeth o'n gwaith dadansoddi ac ymchwil gyda phleidleiswyr ac ymgyrchwyr yn dangos lefelau uchel o foddhad a hyder yn y ffordd y cafodd yr etholiadau hyn eu cynnal ledled y wlad.

Roedd 2.28 miliwn o etholwyr wedi'u cofrestru ar gyfer yr etholiadau hyn, a'r nifer a bleidleisiodd oedd 42%, sy'n uwch na'r 38.9% a bleidleisiodd yn yr etholiadau llywodraeth leol diwethaf.

Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a oedd yn rhan o'r gwaith o gynllunio a rheoli'r etholiadau hyn. Ymhlith y rhain mae Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, Rheolwyr Gwasanaethau Etholiadol a'u holl staff. Roedd rheoli'r etholiadau hyn yn heriol iawn, a chynyddodd yr her hon ar 18 Ebrill pan gyhoeddodd Prif Weinidog y DU y byddai etholiad cyffredinol Senedd y DU yn cael ei gynnal ar 8 Mehefin. Mae'r ffaith bod yr etholiadau llywodraeth leol hyn wedi cael eu cynnal yn llwyddiannus heb unrhyw broblemau sylweddol yn adlewyrchu'r gwaith caled a wnaed gan bawb dan sylw ac rydym yn ddiolchgar am eu mewnbwn.

Rydym hefyd yn ddiolchgar i Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru, a sefydlwyd yn ddiweddar, am ei waith i helpu i gydlynu a rheoli'r etholiad hwn. Credwn fod y grŵp hwn, a sefydlwyd yn ffurfiol ddechrau 2017 ac a arweinir gan uwch Swyddogion Canlyniadau yng Nghymru, yn allweddol i'r gwaith o reoli digwyddiadau etholiadol effeithiol yng Nghymru yn y dyfodol ac edrychwn ymlaen at weld sut y gall y grŵp hwn wella arferion gwaith yn ogystal â pharhau i ddatblygu ei hun fel pwynt arbenigedd mewn perthynas â rheoli etholiadol yng Nghymru.


Rydym yn gwneud argymhellion yn yr adroddiad sy'n benodol i ddigwyddiadau etholiadol yn y dyfodol yng Nghymru, gan gynnwys:

- Datblygu Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru
- Sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried yn briodol gan ddeddfwyr a bod yr holl adnoddau a deunydd angenrheidiol yn cael eu llunio'n ddwyieithog mewn modd amserol
- Casglu data cenedlaethol ar y nifer sy'n pleidleisio yn yr etholiadau lleol yn 2022

Yn ogystal ag ystyried y newidiadau hyn sy'n benodol i Gymru, rydym hefyd am weld cynnydd tuag at roi diwygiadau mwy sylweddol ar waith mewn dau faes:

- Gwella'r broses gofrestru etholiadol er mwyn sicrhau bod y broses yn fwy cydgysylltiedig ac wedi'i hintegreiddio â gwasanaethau cyhoeddus eraill ac yn adlewyrchu disgwyliadau dinasyddion yn well.
- Moderneiddio a symleiddio cyfraith etholiadol, yn unol ag argymhellion Comisiynau'r Gyfraith yn y DU yn 2016.

Mae Deddf Cymru 2017 yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Lywodraeth Cymru ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a llywodraeth leol yn y dyfodol. Ar 18 Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei dogfen ymgynghori ar ddiwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol yng Nghymru, a amlinellodd nifer o gynigion ar gyfer moderneiddio etholiadau yn y dyfodol. Edrychwn ymlaen at gyfrannu at y gwaith hwn ac at gydweithio â Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i wella'r broses etholiadol ar gyfer gweinyddwyr, ymgyrchwyr a phleidleiswyr sy'n cymryd rhan yn yr etholiadau allweddol hyn.



Yr Athro Elan Closs Stephens CBE
Comisiynydd Etholiadol Cymru

Crynodeb

Ar 4 Mai 2017, cynhaliwyd etholiadau ym mhob un o'r 22 o ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r Comisiwn Etholiadol, yn rhinwedd ei rôl statudol o oruchwylio etholiadau a chyflwyno adroddiadau arnynt, wedi ysgrifennu'r adroddiad hwn i nodi canfyddiadau allweddol o ran y ffordd y cafodd yr etholiadau eu cynnal, ac i gyflwyno argymhellion i'r llywodraeth neu i lywodraethau ac i weinyddwyr etholiadol ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.

Fel gydag adroddiadau etholiadol blaenorol yng Nghymru, rydym wedi ystyried barn partneriaid allweddol, gan gynnwys Swyddogion Canlyniadau a'u staff, pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid, a phleidleiswyr.

Canfyddiadau allweddol

Roedd cyfanswm o 2.28 miliwn o bobl wedi'u cofrestru i bleidleisio yn etholiadau lleol mis Mai 2017 yng Nghymru, sydd ychydig yn llai na'r nifer yn yr etholiadau llywodraeth leol blaenorol yn 2012 a 2013.

Bwriwyd cyfanswm o 895,943 o bleidleisiau, sy'n golygu bod 42% o'r etholaeth gymwys wedi pleidleisio, sef cynnydd bach yn y nifer a bleidleisiodd o gymharu â'r etholiadau yn 2012 a 2013. Roedd y nifer a bleidleisiodd yn amrywio o 36.3% yng Nghasnewydd i 53.0% yng Ngheredigion.

Cafodd etholiadau llywodraeth leol 2017 eu cynnal yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'r rheolau etholiad yn gymhleth ac yn hen ffasiwn o hyd. Pwysleisir yr angen i newid gan argymhellion y Comisiwn Etholiadol yn yr adroddiad hwn, fel yn ein hadroddiadau blaenorol. Mae Comisiynau'r Gyfraith yn y DU hefyd wedi gwneud argymhellion er mwyn symleiddio a diwygio cyfraith etholiadol. Yn fwyaf diweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn yn awgrymu diwygiadau sy'n ofynnol i wella etholiadau yng Nghymru.

Canfu ein hymchwil i farn y cyhoedd a gynhaliwyd gyda phleidleiswyr fod 82% o ymatebwyr yn fodlon ar y gweithdrefnau ar gyfer pleidleisio ar y cyfan, sef cynnydd bach o gymharu ag 80% yn 2012. Dangosodd yr ymchwil y canlynol hefyd:

- roedd 95% o'r farn ei bod yn hawdd cwblhau'r papur pleidleisio
- roedd 96% o bleidleiswyr gorsaf bleidleisio yn fodlon ar y broses o bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio
- roedd 100% o bleidleiswyr post yn fodlon ar eu profiad
- roedd 89% yn fodlon ar y system cofrestru etholiadol, o gymharu ag 84% yn 2012
- pobl rhwng 18 a 34 oed oedd y grŵp mwyaf bodlon (95%)
- roedd 81% yn hyderus bod yr etholiadau a gynhaliwyd ar 4 Mai wedi cael eu cynnal yn dda, o gymharu â 77% yn 2012

Argymhellion

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gymryd rhan ym Mwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru. Dylai hefyd ystyried sut y gellid datblygu rôl y Bwrdd yn y tymor canolig i'r hirdymor er mwyn cefnogi rhaglen moderneiddio etholiadol gyffredinol Llywodraeth Cymru. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ystyried p'un a ddylai'r Bwrdd ddod yn grŵp statudol, fel yn yr Alban.

Argymhelliad 2: Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru roi argymhellion Comisiynau'r Gyfraith ar waith, i'r graddau y maent yn gymwys i etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, ac etholiadau Cynlluniad Cenedlaethol Cymru, pan gaiff pwerau deddfu ar gyfer yr etholiadau hyn eu datganoli yn 2018.

Argymhelliad 3: Rydym yn argymell y dylai'r Grŵp Cynghori ar Ddeddfwriaeth Gymraeg gynnal adolygiad o ddeddfwriaeth berthnasol, er mwyn sicrhau y creffir ar bapurau pleidleisio ac unrhyw ddeunyddiau ategol angenrheidiol a bod unrhyw welliannau'n cael eu nodi. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn mewn pryd i alluogi Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad i wneud unrhyw ddiwygiadau deddfwriaethol er mwyn cyflawni'r gwelliannau hyn, a sicrhau eu bod ar waith o leiaf chwe mis cyn yr etholiadau nesaf.

Argymhelliad 4: Rydym am weithio gyda llywodraethau'r DU, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, er mwyn ystyried sut i ymgorffori gwiriadau mwy awtomatig yn y gwasanaeth cais ar-lein, fel ei bod yn glir os yw rhywun sy'n gwneud cais eisoes wedi'i gofrestru neu wedi cyflwyno cais yn ddiweddar, er enghraifft.

Argymhelliad 5: Rydym yn argymell y dylai'r Grŵp Cynghori ar Ddeddfwriaeth Gymraeg a phartneriaid cysylltiedig eraill weithio i greu adnoddau er mwyn hybu datblygiad parhaus etholiadau dwyieithog yng Nghymru.

Argymhelliad 6: Rydym yn argymell y dylai Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru ystyried sut y dylai data ar y nifer a bleidleisiodd gael eu casglu a'u cyhoeddi'n briodol yn etholiadau llywodraeth leol 2022.

Argymhelliad 7: Rydym yn parhau i argymell y dylai llywodraethau ddiwygio'r gyfraith er mwyn galluogi ymgeiswyr i ddefnyddio unrhyw rai o'u henwau a roddwyd, fel eu henw canol, fel enw a ddefnyddir yn gyffredin, heb gyfyngu enwau a ddefnyddir yn gyffredin i'r rhai sy'n wahanol i unrhyw enw cyntaf neu gyfenw a roddwyd yn unig.

1 Etholiadau llywodraeth leol 2017 yng Nghymru

1.1 Ar 4 Mai 2017, cynhaliwyd etholiadau ym mhob un o'r 22 o ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru.

1.2 Cynhelir etholiadau lleol yng Nghymru ar gylch pedair blynedd fel arfer. Fodd bynnag, i osgoi cyfuno'r etholiadau ag etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Orchymyn Etholiadau Awdurdod Lleol (Cymru) yn 2014, gan ohirio'r etholiadau lleol am flwyddyn a'u symud i fis Mai 2017.

1.3 Cynhaliwyd etholiadau mis Mai 2017 gan ddefnyddio system etholiadol y cyntaf i'r felin. Mae rhai wardiau yn wardiau 'un aelod' lle y caiff yr ymgeisydd sydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau ei ethol. Ceir hefyd wardiau 'aml-aelod', lle y gall pleidleiswyr fwrw pleidlais dros gynifer o ymgeiswyr ag sydd o seddau gwag. Caiff yr ymgeiswyr â'r nifer fwyaf o bleidleisiau eu hethol.

1.4 Mewn wardiau lle nad enwebwyd digon o ymgeiswyr yn ddilys i olygu bod angen ymladd etholiad, caiff yr ymgeiswyr a enwebwyd eu hethol yn awtomatig heb fod angen pleidlais. Ledled Cymru yn 2017, etholwyd cyfanswm o 92 o ymgeiswyr yn ddiwrthwynebiad. Golygai hyn na chafodd pleidleiswyr yn y wardiau hynny gyfle i bleidleisio. Mae hyn yn cyfateb i 7% o gyfanswm nifer y seddau sydd ar gael yng Nghymru, sy'n gyfran uwch o seddau diwrthwynebiad nag a gafwyd yn yr etholiadau llywodraeth leol diweddaraf yn Lloegr a'r Alban.

1.5 Ar 18 Ebrill 2017, cyhoeddodd Prif Weinidog y DU, y Gwir Anrh. Theresa May AS, ei bwriad i alw etholiad cyffredinol brys ar gyfer Senedd y DU i'w gynnal ym mis Mehefin. Ar ôl dadl yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Ebrill, pasiodd ASau gynnig o blaid yr etholiad a fyddai'n cael ei gynnal ar 8 Mehefin. Gwnaed y cyhoeddiad hwn 16 diwrnod yn unig cyn y diwrnod pleidleisio ar gyfer yr etholiadau lleol yng Nghymru. Cafodd hyn effaith sylweddol ar yr etholiadau lleol am fod prosesau gweinyddol yn gorgyffwrdd, a chawsom wybod am hyn gan weinyddwyr a Swyddogion Canlyniadau.

2 Cofrestru a'r nifer a bleidleisiodd

2.1 Roedd cyfanswm o 2.28 miliwn o bobl wedi'u cofrestru i bleidleisio yn etholiadau lleol mis Mai 2017 yng Nghymru, sydd ychydig yn llai na'r nifer yn yr etholiadau llywodraeth leol blaenorol yn 2012 a 2013¹, pan oedd 2.31 miliwn o bobl wedi'u cofrestru.

2.2 Y nifer a bleidleisiodd yn etholiadau llywodraeth leol 2017 yng Nghymru oedd 42%, sydd ychydig yn uwch na'r 39% a bleidleisiodd yn etholiadau llywodraeth leol 2012/2013, ond yn debyg i'r nifer a bleidleisiodd yn etholiadau 2008 a 2004. Mae'r nifer a bleidleisiodd y cyfeirir ati yn yr adroddiad hwn yn cynnwys yr holl bleidleisiau dilys a fwriwyd yn ogystal â'r rhai a wrthodwyd yn ystod y broses gyfrif.

2.3 Roedd y nifer a bleidleisiodd yn amrywio o 36.6% yng Nghasnewydd i 53.0% yng Ngheredigion, a gwelwyd cynnydd ym mhob un ond dwy ardal awdurdod lleol o gymharu ag etholiadau lleol 2012/2013.

Tabl 1: Y nifer a bleidleisiodd mewn etholiadau lleol yng Nghymru 2004-2017

| | 2017 | 2012/ 2013 | 2008 | 2004 |
|------------------------------|-------------|-------------------|-------------|-------------|
| Etholaeth gofrestrdig | 2.28 miliwn | 2.31 miliwn | 2.11 miliwn | 2 filiwn |
| Nifer y pleidleiswyr | 42.0% | 38.9% | 44.0% | 42% |

Noder: Mae ffigurau 2012 wedi cael eu haddasu i gynnwys etholiadau lleol Ynys Môn a ohiriwyd tan 2013.

¹ Ym mis Mai 2012, cynhaliwyd etholiadau lleol mewn 21 o'r 22 o awdurdodau lleol unedol yng Nghymru. Ar Ynys Môn, gohiriwyd yr etholiadau tan fis Mai 2013.

3 Cynllunio

3.1 Yn ein hadroddiad statudol ar etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016, argymhellwyd y dylai Grŵp Cyflawni Cymru parhaol gael ei sefydlu er mwyn gwella a symleiddio'r gwaith cynllunio ymhellach ar gyfer digwyddiadau etholiadol yn y dyfodol, a rhoi cyfleoedd i drafod meysydd allweddol sy'n peri pryder cyffredin.

3.2 Cyfarfu'r grŵp, sydd bellach yn cael ei alw'n Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru, am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2017 er mwyn dechrau ei waith cyn yr etholiadau llywodraeth leol. Ymhlith yr aelodau mae Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, swyddogion o Swyddfa'r Cabinet a Swyddfa Cymru, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Cymru) a'r Comisiwn Etholiadol.

3.3 Wrth baratoi ar gyfer yr etholiadau hyn, trafododd y Bwrdd amrywiaeth o faterion gan gynnwys cynllunio prosiectau, rheoli risg, enwebiadau, amseriad y cyfrif, ymwybyddiaeth y cyhoedd a phartneriaethau, uniondeb etholiadol a delio â chwynion.

3.4 Er nad yw'r Bwrdd yn grŵp statudol, mae ganddo rôl bwysig i'w chyflawni o ran dwyn ynghyd yr amryw randdeiliaid, a chynnig barn gydgyssylltiedig a chydlynol ar faterion etholiadol yng Nghymru. Credwn fod datblygiad y grŵp hwn yn hollbwysig er mwyn sicrhau cysondeb ym maes rheoli etholiadol ledled y wlad, mewn ffordd debyg i weithrediad y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn yr Alban.

3.5 Mae hyn yn arbennig o bwysig ar hyn o bryd; yn sgil y cynigion etholiadol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei Phapur Gwyn yn gynharach eleni, a'r ddogfen ymgynghori fwy diweddar, [Diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol yng Nghymru](#). Hefyd, mae Comisiwn y Cynulliad wedi penodi Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol a fydd yn cyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau yn yr hydref.

Argymhelliad 1: Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gymryd rhan ym Mwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru. Dylai hefyd ystyried sut y gellid datblygu rôl y Bwrdd yn y tymor canolig i'r hirdymor er mwyn cefnogi rhaglen moderneiddio etholiadol gyffredinol Llywodraeth Cymru. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ystyried p'un a ddylai'r Bwrdd ddod yn grŵp statudol, fel yn yr Alban.

4 Deddfwriaeth a'r papur pleidleisio

4.1 Mae'r gyfraith ar gyfer cynnal etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru wedi'i nodi mewn nifer fawr o ddarnau ar wahân o ddeddfwriaeth, y mae rhai ohonynt yn dyddio'n ôl i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg neu'n gynharach, ac nid yw'n addas i'r diben mwyach. Gall cymhlethdod y ddeddfwriaeth ei gwneud hi'n anodd i Swyddogion Canlyniadau a'u staff reoli etholiad, a gwneud y broses o gymryd rhan mewn etholiad yn heriol i bleidiau, ymgeiswyr a'u hasiantiaid.

4.2 Yn 2016, nododd Comisiynau'r Gyfraith yn y DU argymhellion ar gyfer cydgyfnerthu, symleiddio, diweddarau a gwella deddfwriaeth etholiadol.² Byddai rhoi'r newidiadau hyn ar waith yn ei gwneud hi'n haws o lawer i Swyddogion Canlyniadau a'u staff weinyddu etholiadau, gan leihau'r risg o wallau ac arwain at brofiad gwell o etholiadau i bleidleiswyr a'r rhai sy'n sefyll etholiad.

4.3 Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ar hyn o bryd, ac mae Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi sefydlu Panel Arbenigol i ymchwilio i'r gyfraith sy'n rheoli etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. O ystyried y posibilrwydd o gynnal etholiadau cyfunol yn y dyfodol, dylai unrhyw reolau newydd a bennir fod mor gydnaws â phosibl, a dylid ystyried eu cydgyfnerthu.

Argymhelliad 2: Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad i roi argymhellion Comisiynau'r Gyfraith ar waith

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru roi argymhellion Comisiynau'r Gyfraith ar waith, i'r graddau y maent yn gymwys i etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac etholiadau Cynlluniad Cenedlaethol Cymru, pan gaiff pwerau deddfu ar gyfer yr etholiadau hyn eu datganoli yn 2018.

4.4 Mae'r gyfraith bresennol yn ei gwneud hi'n arbennig o anodd i Swyddogion Canlyniadau a'u staff lunio papurau pleidleisio dwyieithog. Er mwyn helpu gweinyddwyr, gwnaethom baratoi nodyn canllaw a oedd yn cynnwys templed o bapur pleidleisio dwyieithog. Fodd bynnag, daeth yn amlwg wrth lunio'r templed hwn nad oedd cyfieithiad Cymraeg ar gyfer y pennawd ar y papur pleidleisio wedi cael ei gynnwys yn y darnau perthnasol o ddeddfwriaeth.

² Gellir lawrlwytho adroddiad Comisiynau'r Gyfraith o'u gwefan yma: <https://www.lawcom.gov.uk/cymraeg/>

4.5 Gwnaethom dynnu sylw swyddogion Swyddfa'r Cabinet at hyn, a gwnaethant ddrafftio a chyflwyno Gorchymyn Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Ffurflenni Cymru) (Diwygio) 2017, a oedd yn cynnwys y cyfieithiadau perthnasol.

4.6 Codwyd mater y diffyg templedi ar gyfer cardiau pleidleisio, hysbysiadau, pecynnau pleidleisio drwy'r post a phapurau pleidleisio yn yr adborth a gawsom gan aelodau o Weithgor Ymarferwyr Etholiadol Cymru. Byddai darparu templedi'n gynnar yn golygu llai o ddyblygu gwaith, gwallau ac anghysondeb rhwng awdurdodau, ac mae'n rhywbeth y credwn y dylai Gweithgor Ymarferwyr Etholiadol Cymru a'r Grŵp Cynghori ar Ddeddfwriaeth Gymraeg gydweithio arno.

4.7 Dangosodd ein hymchwil i farn y cyhoedd fod 95% o ymatebwyr, a oedd wedi pleidleisio ar 4 Mai, yn dweud eu bod wedi'i chael hi'n hawdd cwblhau eu papur pleidleisio.

Grŵp Cynghori ar Ddeddfwriaeth Gymraeg

4.8 Yn dilyn ein hadroddiad ar etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016, sefydlwyd Grŵp Cynghori ar Ddeddfwriaeth Gymraeg. Rôl y grŵp yw craffu ar ddeddfwriaeth etholiadol Gymraeg gyfredol, nodi unrhyw anghysondebau, a chynnig cywiriadau a gwelliannau er mwyn sicrhau bod dogfennaeth Gymraeg o safon gystal â dogfennaeth Saesneg i bleidleiswyr yng Nghymru.

4.9 Gweithred gyntaf y grŵp oedd ymateb i Swyddfa'r Cabinet ynghylch y Gorchymynion Diwygio ar gyfer y papurau pleidleisio ar gyfer etholiadau mis Mai y sonnir amdanynt uchod. Cytunodd y grŵp fod y geiriad Cymraeg yn adlewyrchu'r geiriad Saesneg yn gywir, ond cododd faterion eraill yn ei ymateb hefyd:

- Gallai'r geiriad sy'n cyfeirio at gynghorau plwyf fod yn gamarweiniol i rai Swyddogion Canlyniadau. Roedd y grŵp o'r farn y dylid ystyried peidio â chynnwys 'cyngor plwyf' ar ffurflenni sy'n gysylltiedig ag etholiadau yng Nghymru, a diwygio'r defnydd o'r gair "cynghorwyr / councillors" er mwyn adlewyrchu'r rôl mewn wardiau un aelod yn gywir, sef pwynt a godwyd yn flaenorol gan Swyddogion Canlyniadau a'r Comisiwn³.
- Dylai'r holl ddeddfwriaeth berthnasol fod ar waith o leiaf chwe mis cyn y diwrnod pleidleisio fel y gall Swyddogion Canlyniadau baratoi'n briodol ar gyfer yr etholiad sydd ar ddod, yn unol ag argymhellion blaenorol y Comisiwn.

4.10 Mae'r grŵp hwn, nad oedd yn bodoli yn y gorffennol, wedi creu fforwm er mwyn sicrhau bod materion sy'n ymwneud â deddfwriaeth Gymraeg yn cael

³ Y mater ynghylch defnyddio cynghorwyr/councillors mewn wardiau un aelod yw nad oes darpariaeth ar gyfer defnyddio cynghorydd/councillor ar y papur pleidleisio, felly gall beri dryswch i bleidleiswyr pan gânt eu cyfarwyddo i bleidleisio dros ddim mwy nag un ymgeisydd.

eu trafod mewn modd cydlynol. Mae hefyd wedi sicrhau bod ymateb cyson yn cael ei roi i ymgynghoriadau ynghylch Gorchmynion ffurflenni Cymraeg a deddfwriaeth arall o'r fath.

4.11 Nod nesaf y grŵp yw edrych ar ddeunyddiau ar gyfer pleidleiswyr sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth etholiadol ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y grŵp yn amlinellu rhaglen waith ehangach y byddant yn ei rhannu ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol cyn bwrw ymlaen â'r gwaith.

Argymhelliad 3: Adolygu deddfwriaeth ar gyfer papurau pleidleisio a deunyddiau i bleidleiswyr

Rydym yn argymhell y dylai'r Grŵp Cyngori ar Ddeddfwriaeth Gymraeg gynnal adolygiad o ddeddfwriaeth berthnasol, er mwyn sicrhau y creffir ar bapurau pleidleisio ac unrhyw ddeunyddiau ategol angenrheidiol a bod unrhyw welliannau'n cael eu nodi. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn mewn pryd i alluogi Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad i wneud unrhyw ddiwygiadau deddfwriaethol er mwyn cyflawni'r gwelliannau hyn, a sicrhau eu bod ar waith o leiaf chwe mis cyn yr etholiadau nesaf.

5 Ein hymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd

5.1 Gwnaethom gynnal ymgyrch i annog pobl i fynd ar-lein i gofrestru i bleidleisio erbyn y terfyn amser ar 13 Ebrill. Ein nod oedd cyrraedd cynulleidfa gyffredinol a grwpiau nas cofrestrir yn ddigonol, gan gynnwys myfyrwyr, pobl sy'n symud tŷ, y rhai rhwng 18 a 34 oed a phobl sy'n rhentu eiddo preifat.

5.2 Defnyddiodd yr ymgyrch hysbysebion teledu, radio ac ar-lein yn ogystal â gweithgareddau gyda phartneriaid a gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus.

5.3 Rhwng 20 Mawrth, pan ddechreuodd ein hymgyrch, a'r terfyn amser ar gyfer cofrestru ar 13 Ebrill, cafwyd 25,000 o ychwanegiadau at y cofrestru etholiadol yng Nghymru.

5.4 Roedd ymwybyddiaeth o'n hymgyrch yn uchel, gyda 76% o bobl a holwyd wedyn yn dweud eu bod yn adnabod o leiaf un elfen ohoni, sy'n uwch na'n targed o 75%.

Gweithio mewn partneriaeth

5.5 Gall gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill fod yn ffordd rymus o helpu i godi ymwybyddiaeth o gofrestru etholiadol. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth geisio cyrraedd y bobl hynny sy'n lleiaf tebygol o fod wedi'u cofrestru i bleidleisio.

5.6 Gan adeiladu ar ein gwaith partneriaeth llwyddiannus mewn digwyddiadau etholiadol blaenorol, gwnaethom gydweithio â'r partneriaid a oedd gennym eisoes a chwilio am gyfleoedd newydd i hyrwyddo ein neges am gofrestru pleidleiswyr.

5.7 Gwnaethom weithio gyda llwyfannau cyfryngau cymdeithasol Facebook a Nextdoor i sicrhau bod nodyn yn atgoffa pobl i gofrestru i bleidleisio yn ymddangos yn ffrydiau newyddion defnyddwyr yng Nghymru.

5.8 Gwnaethom lunio a rhannu adnoddau ar gyfer sefydliadau partner, gan gynnwys delweddau a thestun ar gyfer cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â thempledi ar gyfer posteri a chynnwys ar gyfer gwefannau a chylchlythyrau.

5.9 Gwnaethom hefyd gydweithio â phartneriaid penodol i lunio adnoddau ar y cyd. Roedd hyn yn cynnwys cydweithio ag RNIB Cymru i lunio [taflen ffeithiau](#) yn disgrifio'r cymorth sydd ar gael i bleidleiswyr â cholled golwg, fel dyfeisiau pleidleisio cyffyrddadwy mewn gorsafoedd pleidleisio.

“Mae'n bleser gan RNIB Cymru gefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Comisiwn Etholiadol i wneud pleidleisio mor hygyrch â phosibl i bob pleidleisiwr. Rydym wedi cydweithio llawer â'r Comisiwn yn ystod yr etholiadau rhwng 2015 a 2017, ac mae'n bleser gennym allu codi ymwybyddiaeth o'r nodweddion hygyrchedd y dylai pob person dall a rhannol ddall allu eu defnyddio, o gofrestru i bleidleisio i fwrw eu pleidlais yn gyfrinachol yn y blwch pleidleisio.”


Emma Sands, RNIB Cymru



5.10 Gwnaethom lunio [canllaw ar bleidleisio](#) Hawdd ei Darllen i bleidleiswyr ag anableddau dysgu, gan gydweithio â Mencap Cymru ac Anabledd Dysgu Cymru.

“Roeddem yn falch iawn o gydweithio â'r Comisiwn Etholiadol i greu adnoddau er mwyn helpu pobl ag anabledd dysgu i ddeall yr etholiad a chymryd rhan ynddo. Mae gwybodaeth hygyrch o safon uchel am etholiadau a gwleidyddiaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl ag anabledd dysgu yn gallu cymryd rhan lawn yn y broses ddemocrataidd.”

Glenn Page, Mencap Cymru



5.11 Gwnaethom hefyd gydweithio â sefydliadau digartrefedd, The Wallich a Cymorth Cymru, i ddweud wrth bobl [heb gyfeiriad sefydlog](#) sut y gallent gymryd rhan yn yr etholiadau.



This factsheet provides information on how to register to vote if you don't have a permanent address and how to take part in the local council elections in Wales on **Thursday 4 May 2017**.

YOU CAN STILL REGISTER TO VOTE EVEN IF YOU DON'T HAVE A FIXED ADDRESS

GALLWCH GOFRESTRU I BLEIDLEISIO HYD YN OED OS NAD OES CYFEIRIAD SEFYDLOG GYDA CHI

Go to gov.uk/register-to-vote
Register by 13 April to vote in the local elections on **Thursday 4 May**.

Erch i gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio
Cofrestrwch erbyn 13 Ebrill i bleidleisio yn yr etholiadau lleol ddydd Iau 4 Mai.

THE MATTERS DON'T LOSE IT

thewallich

cymorth cymru

MAE BY BLEIDLEISIO YN CYFRIF
PAND COLLI BY SYDLE

“Roedd yn wych cydweithio â'r Comisiwn Etholiadol unwaith eto yn ystod yr etholiadau lleol. Gyda'n gilydd, gwnaethom lunio taflenni ffeithiau manwl a phosteri i roi gwybodaeth i bobl sy'n ddigartref neu heb gyfeiriad sefydlog. Gwnaethom hyrwyddo'r deunyddiau hyn yn ein prosiectau a chyda'n hasiantaethau partner, gan annog ein cleientiaid i gofrestru i bleidleisio.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleientiaid y gwnaethom siarad â nhw wedi cymryd yn ganiataol, oherwydd eu sefyllfa o ran lle i fyw, nad oedd modd iddynt bleidleisio, ac roeddent yn falch o glywed nad oedd hyn yn wir.

Mae ein cleientiaid yn gwybod o brofiad mor bwysig yw sut mae penderfyniadau lleol yn effeithio ar bobl sy'n wynebu digartrefedd, ac roeddent yn awyddus i gael lleisio'u barn ar bolisi yn eu hardal yn y dyfodol. Mae'r hawl i bleidleisio yn sylfaenol, ac mae sicrhau bod pawb yn gwybod eu hawliau yn hanfodol.”

Mia Rees, Rheolwr Materion Cyhoeddus ac Ymchwil, The Wallich

6 Gweinyddu'r etholiadau

Y gofrestr etholiadol

6.1 Mae'r [system cofrestru ar-lein](#) wedi sicrhau gwell mynediad o lawer i etholiadau ym Mhrydain Fawr ers ei chyflwyno ym mis Mehefin 2014. Canfu ein hymchwil i farn y cyhoedd yng Nghymru fod boddhad â'r broses gofrestru wedi cynyddu o 84% yn 2012 i 89% yn 2017. Pobl rhwng 18 a 34 oed oedd y grŵp mwyaf bodlon ar y system (95%).

6.2 Y terfyn amser ar gyfer ceisiadau i gofrestru i bleidleisio yn yr etholiadau lleol oedd hanner nos, nos lau 13 Ebrill, a chyflwynwyd 27,903 o geisiadau rhwng 20 Mawrth a'r terfyn amser. Yn ogystal â phrosesu'r cynnydd hwyr yn nifer y ceisiadau i gofrestru, roedd angen i staff etholiadau hefyd brosesu ceisiadau i gofrestru drwy'r post a wnaed cyn 5pm ddydd Mawrth 18 Ebrill, a cheisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy a wnaed cyn 5pm ddydd Mawrth 25 Ebrill.

6.3 Dywedodd gweinyddwyr etholiadol fod nifer sylweddol o'r ceisiadau yn geisiadau dyblyg, lle'r oedd pleidleiswyr wedi cyflwyno cofrestradau newydd heb sylweddoli eu bod eisoes wedi'u cofrestru i bleidleisio. Ychwanegodd hyn bwysau sylweddol yn ystod cyfnod a oedd eisoes yn brysur iawn i staff etholiadau.

6.4 Cyn hyn rydym wedi argymhell y dylai cyfleuster 'chwilio' ar-lein gael ei gynnig ledled y DU i etholwyr weld a ydynt eisoes wedi'u cofrestru, ac rydym yn awyddus i ystyried opsiynau ar gyfer gwella'r gwasanaeth cofrestru ar-lein presennol. Er enghraifft, gallai fod yn bosibl i'r gwasanaeth ar-lein hysbysu ymgeiswyr os ydynt eisoes wedi cyflwyno cais ar-lein cyn iddynt wneud cais arall, er mwyn mynd i'r afael ag achos y broblem yn y man cychwyn.

6.5 Hefyd, yn 2016, gwnaeth Comisiynau'r Gyfraith yn y DU argymhell y dylai systemau Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar gyfer rheoli data ar gofrestru allu cael eu hallforio i feddalwedd arall Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a rhyngweithio â'r feddalwedd honno, a fyddai'n paratoi'r ffordd i bleidleiswyr allu cadarnhau p'un a ydynt eisoes wedi'u cofrestru.⁴

6.6 Yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf ar [gofrestru etholiadol yn etholiad cyffredinol Senedd y DU 2017](#), mae'r Comisiwn Etholiadol eisoes wedi nodi bod angen i lywodraethau'r DU gydweithio i ystyried sut y gellid gwella systemau presennol er mwyn mynd i'r afael ag effaith weinyddol ceisiadau dyblyg ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u timau, yn ogystal â helpu i ganfod achosion posibl o dwyll etholiadol fel pleidleisio ddwywaith.

⁴ Argymhellad 4-13 o adroddiad interim Comisiwn y Gyfraith (ar gael yma: <http://www.lawcom.gov.uk/project/electoral-law/>).

Argymhelliad 4: Lleihau nifer ceisiadau dyblyg a'u heffaith

Rydym am weithio gyda llywodraethau'r DU, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, er mwyn ystyried sut i ymgorffori gwiriadau mwy awtomatig yn y gwasanaeth cais ar-lein, fel ei bod yn glir os yw rhywun sy'n gwneud cais eisoes wedi'i gofrestru neu wedi cyflwyno cais yn ddiweddar, er enghraifft.

Pleidleisio absennol

6.7 Mae pleidleisio absennol yn dal yn boblogaidd, gyda 100% o bleidleiswyr post yng Nghymru yn dweud eu bod yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar eu profiad. Dywedodd 87% eu bod wedi'i chael hi'n hawdd deall beth i'w wneud er mwyn cwblhau a dychwelyd eu pleidlais bost, a dywedodd 82% fod y canllawiau a ddarparwyd ar sut i bleidleisio a dychwelyd eu pleidlais wedi bod yn ddefnyddiol iddynt.

6.8 Cyfanswm nifer yr etholwyr a oedd wedi'u cofrestru ar gyfer pleidlais bost mewn ardaloedd lle cynhaliwyd etholiadau a ymladdwyd oedd 387,909, sef 18.2% o'r etholaeth, o gymharu ag 17.4% yn 2012.

6.9 Canran y pleidleiswyr post a bleidleisiodd oedd 69.7%, gyda 270,024 o bleidleisiau post yn cael eu dychwelyd. Mae hyn o gymharu â chanran o 36.3% ar gyfer pobl a bleidleisiodd mewn gorsafoedd pleidleisio. Roedd pleidleisiau post yn cyfrif am 29.2% o'r holl bleidleisiau a gafodd eu cynnwys yn y broses gyfrif.

6.10 Mae pecynnau pleidleisio drwy'r post yn gofyn i bleidleiswyr roi eu llofnod a'u dyddiad geni. Wedyn, caiff y manylion adnabod hyn eu cymharu â'r rhai a roddwyd ar adeg y cais. Os nad yw'r llofnod neu'r dyddiad geni yn cyfateb, caiff y pleidlais bost ei gwrthod ac ni chaiff ei chynnwys yn y broses gyfrif.

6.11 Cyfanswm nifer y pleidleisiau post a wrthodwyd gan Swyddogion Canlyniadau oedd 8,695. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd wrthod o 3.2%, o gymharu â 4.4% yn 2012.

6.12 Ers 2014, mae'n ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol roi gwybod i etholwyr os cafodd eu pleidlais bost ei gwrthod. Gallant hefyd ofyn i'r etholwr ddarparu llofnod cyfredol. Mae'r lleihad yn nifer y pleidleisiau post a wrthodwyd yn awgrymu bod y polisi newydd yn cael effaith gadarnhaol o bosibl.

Safonau perfformiad

6.13 Rydym yn pennu safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ledled Prydain Fawr, yn eu monitro ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt. Bwriad ein fframwaith safonau perfformiad yw helpu Swyddogion Canlyniadau i ddarparu gwasanaeth o safon uchel yn gyson i bleidleiswyr a'r rhai sy'n sefyll etholiad. Mae'r fframwaith yn adlewyrchu'r hyn rydym ni a'r Bwrdd Cynghori ar

Gydgysylltu Etholiadau (ECAB) yn cytuno y bydd angen i Swyddogion Canlyniadau ei wneud er mwyn paratoi ar gyfer etholiadau a'u cynnal yn dda. Nid yw fframwaith safonau perfformiad y Swyddogion Canlyniadau yn gysylltiedig â gwaith Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a gwmpesir gan fframwaith ar wahân.

6.14 Cyn etholiadau mis Mai, dewiswyd sampl seiliedig ar risg o wyth Swyddogion Canlyniadau ar gyfer gwaith monitro manwl, gan ystyried ffactorau fel profiad y Swyddogion Canlyniadau ac unrhyw faterion blaenorol. Gwnaethom siarad â phob un o'r awdurdodau yn y sampl risg i drafod eu cynlluniau ac er mwyn i ni fod yn sicr bod y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer yr etholiad yn foddhaol. Gwnaethom hefyd gasglu gwybodaeth reoli gan bob un o'r 22 o awdurdodau lleol.

6.15 Gwnaethom barhau i fonitro pob awdurdod tan y diwrnod pleidleisio, ac roeddem yn fodlon bod gan bob un ohonynt gynlluniau digonol ar waith ar gyfer cynnal yr etholiad. Gwnaethom roi cymorth yn ôl yr angen i Swyddogion Canlyniadau sy'n cael problemau yn ystod cyfnod yr etholiad.

6.16 Yn y cyfnod cyn y diwrnod pleidleisio, cawsom wybod am fater gweithdrefnol yng Ngwynedd lle'r oedd y papurau pleidleisio ar gyfer Gogledd Dolgellau wedi cael eu dosbarthu'n anghywir i bleidleiswyr yn Ne Dolgellau. Cywirodd y Swyddogion Canlyniadau y mater hwn yn gyflym, ac anfonwyd y papur pleidleisio cywir at bleidleiswyr yn ward De Dolgellau. Nid effeithiodd hyn ar ganlyniad yr etholiad. Gwnaethom ystyried manylion y mater ac ymateb y Swyddogion Canlyniadau, a'n hasesiad terfynol oedd bod Gwynedd wedi cyrraedd y safonau perfformiad. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar wahân ym mis Hydref ar berfformiad Swyddogion Canlyniadau ym Mhrydain Fawr yn etholiadau mis Mai a Mehefin.

Y diwrnod pleidleisio a'r broses gyfrif

6.17 Ni chodwyd unrhyw faterion sylweddol ar y diwrnod pleidleisio, ac ymdriniodd Swyddogion Canlyniadau a'u staff yn effeithiol ag unrhyw fân broblemau y tynnwyd ein sylw atynt ar y diwrnod. Yn yr un modd, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw faterion sylweddol yn ymwneud â dilysu a chyfrif y pleidleisiau yn yr etholiadau hyn.

6.18 Ers 2016, rydym wedi darparu sgriptiau dwyieithog i Swyddogion Canlyniadau eu defnyddio ym mhob etholiad yng Nghymru. Cafwyd ymateb da i'r sgriptiau yn yr etholiad hwn a chawsant eu canmol gan y Grŵp Cyngori ar Ddeddfwriaeth Gymraeg a Bwrdd Cydlynw Etholiadol Cymru. Drwy gydweithio â'r Grŵp Cyngori ar Ddeddfwriaeth Gymraeg, byddwn yn parhau i ddarparu'r adnodd hwn ac yn ceisio ei ddatblygu, yn ogystal â datblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn etholiadau, ble bynnag y bo hynny'n berthnasol ac yn briodol.

Argymhelliad 5: Adnoddau i hybu etholiadau dwyieithog yng Nghymru

Rydym yn argymhell y dylai'r Grŵp Cyngori ar Ddeddfwriaeth Gymraeg a phartneriaid cysylltiedig eraill weithio i greu adnoddau a fydd yn hybu datblygiad parhaus etholiadau dwyieithog yng Nghymru.

6.19 Roedd un mater a godwyd ar nifer o achlysuron yn ymwneud â chyhoeddi manylion y canlyniadau a'r nifer a bleidleisiodd.

6.20 Fel arfer, caiff canlyniadau etholiadau eu darparu yn lleoliad y broses gyfrif a wedyn eu cyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol perthnasol. Fodd bynnag, yn dilyn etholiadau 2017, cafwyd rhai achosion lle nad oedd awdurdodau yn cyhoeddi data ar y nifer a bleidleisiodd, gan ei gwneud hi'n anodd i'r cyfryngau, academyddion a phleidleiswyr gyfrifo ffigurau o ran y nifer a bleidleisiodd ar gyfer Cymru.

6.21 Trafodwyd argaeledd ffigurau o ran y nifer a bleidleisiodd yng nghyfarfod Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru ar ôl yr etholiad, lle y cytunwyd y byddai'r grŵp yn ystyried ffyrdd o wella'r ffordd y caiff data ar gyfer yr etholiadau nesaf yn 2022 eu casglu a'u cyhoeddi. Mae'n deg i'r etholaeth, y cyfryngau a gwleidyddion ddisgwyl cael data cyflym a dibynadwy am y nifer a bleidleisiodd a'r canlyniadau, a chredwn y dylid gwneud ymdrechion pellach i gyflawni'r amcan hwn yn yr etholiadau nesaf.

Argymhelliad 6: Casglu data ar y nifer a bleidleisiodd ar gyfer etholiadau yn y dyfodol

Rydym yn argymhell y dylai Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru ystyried sut y dylai data ar y nifer a bleidleisiodd gael eu casglu a'u cyhoeddi'n briodol yn etholiadau llywodraeth leol 2022.

7 Ymgeiswyr ac ymgyrchwyr

7.1 O'r 1,254 o seddau a oedd ar gael yn etholiadau mis Mai, ymladdwyd 1,161 ohonynt a chafodd 92 o ymgeiswyr eu hethol yn ddiwrthwynebiad. Gohiriwyd etholiadau mewn dwy ward oherwydd marwolaeth ymgeiswyr, ac nid oedd unrhyw ymgeiswyr yn sefyll etholiad mewn un sedd ym Mhowys.

7.2 Cynhaliwyd yr etholiadau yn y ddwy ward a ohiriwyd, sef un ym Merthyr a'r llall yng Ngheredigion, ar 8 Mehefin 2017. Cynhaliwyd yr etholiad ym Mhowys ar 22 Mehefin 2017.

7.3 Mae Tabl 2 yn dangos nifer y cynghorwyr a etholwyd yn 2017 fesul plaid, a nifer y seddau a newidiodd ddwylo ers yr etholiadau llywodraeth leol diwethaf. Mae'r ffigurau'n cynnwys canlyniadau'r ddau etholiad a ohiriwyd ac a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2017, a'r etholiad ym Mhowys ar 22 Mehefin 2017.

Tabl 2:

| Plaid | 2012/ 2013 | 2017 | Newid (+/-) |
|--------------------------------|-------------------|-------------|--------------------|
| Llafur Cymru | 579 | 473 | -106 |
| Y Ceidwadwyr Cymreig | 105 | 185 | +80 |
| Plaid Cymru | 170 | 203 | +33 |
| Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | 73 | 62 | -11 |
| Y Blaid Werdd | 0 | 1 | +1 |
| Annibynnol | 308 | 323 | +15 |
| Arall | 19 | 7 | -12 |

Sesiynau briffio ymgeiswyr ac asiantiaid

7.4 Aethom ati mewn modd rhagweithiol i godi ymwybyddiaeth o'r rheolau i ymgeiswyr ac asiantiaid, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau. Roedd hyn yn cynnwys dosbarthu ein canllawiau i bleidiau gwleidyddol, mynd i gynadleddau pleidiau a rhoi canllawiau i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau.

7.5 Cawsom ein gwahodd gan nifer o Swyddogion Canlyniadau i fynd i'w sesiynau briffio cyn etholiad, a oedd yn gyfle i siarad ag ymgeiswyr ac asiantiaid am ymgyrchu a chyflwyno adroddiadau ar ôl etholiad. Hefyd, trefnodd y Comisiwn bedair sesiwn friffio ar gyfer ymgeiswyr annibynnol ledled Cymru.

7.6 Cafwyd adborth cadarnhaol ar bob un o'r sesiynau. Roedd ein gwasanaeth cynghori dros y ffôn yn ystod y cyfnod a reoleiddir ar gael i'r holl ymgeiswyr ac asiantiaid, yn ogystal â phleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr. Nod y gweithgareddau hyn oedd sicrhau lefel uchel o gydymffurfiaeth â'r rheolau.

Cyfeiriadau cartref ymgeiswyr

7.7 Cysylltodd nifer o ymgeiswyr â'r Comisiwn yn ystod cyfnod yr etholiad i fynegi eu pryder y byddai eu cyfeiriad cartref yn cael ei gynnwys ar y papur pleidleisio ar gyfer yr etholiadau dan sylw. Teimlai llawer fod hyn yn golygu risg sylweddol i'w diogelwch personol.

7.8 Ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, mae'n ofynnol i'r ffurflen enwebu gynnwys cyfeiriad cartref llawn yr ymgeisydd, a bydd y cyfeiriad hwnnw wedyn yn ymddangos ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd a'r papur pleidleisio. Ar gyfer etholiadau cyffredinol Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, rhaid i ymgeiswyr roi eu cyfeiriad cartref ar eu papurau enwebu, ond gallant ofyn nad yw'n ymddangos ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd na'r papur pleidleisio, a bod yr etholaeth lle mae'r cyfeiriad wedi'i leoli yn ymddangos yn ei le.

7.9 Wrth gwrs, mae diogelwch ymgeiswyr yn bwysig, ond mae tryloywder gwybodaeth i bleidleiswyr yn bwysig hefyd, ac mae llawer ohonynt am wybod ble mae eu hymgeiswyr yn byw. Mae angen taro cydbwysedd rhwng y ddwy egwyddor hyn.

7.10 Yn ei phapur ymgynghori diweddar ar ddiwygio etholiadol, awgrymodd Llywodraeth Cymru na ddylai fod yn angenrheidiol cyhoeddi cyfeiriad cartref ymgeisydd mewn llenyddiaeth etholiadol mwyach. Mae'r Comisiwn yn cefnogi penderfyniad Llywodraeth Cymru i ystyried y gofyniad hwn, a byddwn yn ymateb i'r ymgynghoriad maes o law.

Enwebiadau ymgeiswyr

7.11 Fel mewn etholiadau blaenorol, codwyd cwestiynau ynghylch defnyddio enw a ddefnyddir yn gyffredin ar y ffurflenni enwebu, y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd a'r papur pleidleisio.

7.12 Mae'r gyfraith yn darparu y caiff ymgeisydd ofyn am gael defnyddio ei enw(au) a ddefnyddir yn gyffredin ar y papur pleidleisio os yw'n defnyddio enw sy'n wahanol i unrhyw rai o'i enwau gwirioneddol yn gyffredin.

7.13 Rydym o'r farn y dylai ymgeiswyr allu defnyddio unrhyw enw a ddefnyddir yn gyffredin mewn perthynas â nhw, ar yr amod nad yw'r enw yn peri dryswch na thramgwydd i'r etholaeth. Ni ddylai fod yn rhaid i ymgeisydd sydd ond yn defnyddio ei enw cyntaf ddefnyddio ei enw canol ar y papur pleidleisio ac, yn yr un modd, ni ddylai fod yn rhaid i ymgeisydd sy'n defnyddio ei enw canol gynnwys ei enw cyntaf ar y papur pleidleisio.

Argymhelliad 7: Defnyddio enwau a ddefnyddir yn gyffredin

Rydym yn parhau i argymell y dylai llywodraethau ddiwygio'r gyfraith er mwyn galluogi ymgeiswyr i ddefnyddio unrhyw rai o'u henwau a roddwyd, fel eu henw canol, fel enw a ddefnyddir yn gyffredin, heb gyfyngu enwau a ddefnyddir yn gyffredin i'r rhai sy'n wahanol i unrhyw enw cyntaf neu gyfenw a roddwyd yn unig.

Monitro a chydymffurfio

7.14 Gwnaethom fonitro gweithgareddau ymgyrchu gan ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ledled Cymru ar gyfer etholiadau mis Mai 2017. Diben y gwaith hwn oedd hyrwyddo cydymffurfio drwy gasglu gwybodaeth am ymgyrchoedd, a chymryd camau gweithredu lle bo angen.

Materion yn ymwneud ag ymgyrchu

7.15 Yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad, gwnaethom nodi nifer o faterion yn ymwneud â chydymffurfio, gan gynnwys defnyddio argraffnodau yn anghywir ar ddeunydd ymgyrchu.

7.16 Hefyd, cawsom lawer o gwestiynau ynglŷn ag ymgyrchu ar-lein ac yn y cyfryngau cymdeithasol. Er ein bod yn darparu canllawiau i ymgeiswyr ac ymgyrchwyr, mae'r meysydd hyn y tu hwnt i'n cylch gwaith.

7.17 Mae'r rheolau ynghylch defnyddio argraffnodau ac ymgyrchu gan ymgeiswyr wedi'u cwmpasu o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, ac mae angen i unrhyw gwynion yn y meysydd hyn gael eu cyfeirio at yr heddlu. Cyn hyn, rydym wedi gwneud argymhellion yn ein hadroddiadau etholiadol⁵ ynghylch newid i'r fframwaith deddfwriaethol ar y materion hyn, a byddwn yn parhau i weithio tuag at wneud newidiadau o'r fath cyn etholiadau yn y dyfodol.

7.18 Mae argymhellion Comisiynau'r Gyfraith i foderneiddio cyfraith etholiadol yn cynnwys ymestyn y gofynion ynghylch argraffnodau i gynnwys deunydd ar-lein⁶.

Ffurflenni gwariant ymgeiswyr

7.19 Ar ôl yr etholiad, mae'n ofynnol i ymgeiswyr ac asiantiaid gyflwyno ffurflen gwariant wedi'i chwblhau, ynghyd ag anfonebau neu dderbynebau ar gyfer gwariant yr aed iddo. Caiff ffurflenni gwariant eu cyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau, ac maent ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio ar gais.

⁵Adroddiadau etholiadol (ar gael yma: <https://www.electoralcommission.org.uk/cymru/our-work/publications/election-and-referendum-reports>)

⁶Argymhelliad 11-6 o adroddiad interim Comisiwn y Gyfraith (ar gael yma: <http://www.lawcom.gov.uk/project/electoral-law/>).

7.20 Rhaid i ymgeiswyr mewn etholiadau prif ardal gyflwyno eu ffurflenni o fewn 35 diwrnod ar ôl i ganlyniad yr etholiad gael ei ddatgan. Rhaid i ymgeiswyr mewn etholiadau cyngor cymuned gyflwyno eu ffurflenni o fewn 28 diwrnod ar ôl i ganlyniad yr etholiad gael ei ddatgan.

7.21 Mae nifer o awdurdodau lleol wedi rhoi gwybod na wnaeth pob ymgeisydd yn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017 gyflwyno eu ffurflenni a'u datganiadau erbyn y terfynau amser. Fel y nodir yn a.85 (2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl⁷, os yw ymgeisydd wedi cael ei ethol ond heb gyflwyno ei ffurflen neu ddatganiad erbyn y terfyn amser, caiff ei wahardd rhag eistedd na phleidleisio, ac mae'n bosibl y caiff fforffediad neu ddirwy o £50 y dydd am wneud hynny.

7.22 Byddwn yn ystyried ffyrdd o atgyfnerthu ein canllawiau er mwyn sicrhau bod y rheolau a nodir o dan a.85 (2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl yn glir i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus. Mae Comisiynau'r Gyfraith wedi gwneud sawl argymhelliad a fyddai'n symleiddio'r gyfraith yn sylweddol yn y maes hwn, gan ei gwneud hi'n haws i ymgeiswyr ac asiantiaid wybod beth sy'n ofynnol⁸.

⁷A.85 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl (ar gael yma: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1983/2/section/85>)

⁸Pennod 12 o adroddiad interim Comisiynau'r Gyfraith (ar gael yma: <http://www.lawcom.gov.uk/project/electoral-law/>).

8 Uniondeb etholiadol

8.1 Ym mis Chwefror 2017, gwnaethom gynnal seminar ar uniondeb a oedd yn dwyn ynghyd y Pwyntiau Cyswllt Unigol (SPOCs) penodedig o fewn pob ardal heddlu sy'n gweithredu fel pwyntiau cyswllt allweddol ar gyfer pob mater sy'n ymwneud ag uniondeb etholiadol.

8.2 Gwnaethom hefyd gynnal sesiwn friffio gyda swyddog arweiniol SPOC newydd Heddlu Gogledd Cymru, a sesiwn loywi gyda holl swyddogion arweiniol yr heddlu yng Nghymru. Hefyd, aeth SPOCs o Gymru i seminar hyfforddi ar gyfer y DU gyfan, a gynhaliwyd yn Birmingham ar 3 Chwefror 2017 ac a drefnwyd ar y cyd gan y Comisiwn Etholiadol a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO).

8.3 Roedd y seminarau hyn yn gyfle i rannu canllawiau, cyngor ac arfer da ar atal camymddwyn a delio ag ef cyn etholiadau.

8.4 Mae'r rhan fwyaf o bleidleiswyr yng Nghymru yn dal i gredu bod pleidleisio'n ddiogel rhag twyll a chamddefnydd, gyda 75% o ymatebwyr i'n hymchwil i farn y cyhoedd yn nodi bod pleidleisio yn gyffredinol yn ddiogel, o gymharu â 79% a oedd yn credu hyn yn 2012.

9 Casgliadau a'r camau nesaf

9.1 Gweithiodd Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol yn galed i gynnal etholiadau llywodraeth leol 2017 yng Nghymru, a dengys tystiolaeth o'n gwaith dadansoddi ac ymchwil gyda phleidleiswyr ac ymgyrchwyr fod lefelau uchel o foddhad. Serch hynny, yn yr adroddiad hwn rydym wedi nodi heriau parhaus sy'n gysylltiedig â'r broses o gynnal a rheoleiddio etholiadau yn llwyddiannus, fel y gwnaethom ar ôl etholiadau blaenorol yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU.

9.2 O ystyried y cynigion ar gyfer moderneiddio etholiadol y mae Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad yn ymgynghori yn eu cylch ar hyn o bryd, mae'n bwysig bod y ddau gorff yn parhau i gyflawni rôl bwysig yn y gwaith o ddatblygu Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru er mwyn sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig a chyson mewn perthynas â rheoli etholiadol a chyfranogiad pleidleiswyr ledled Cymru.

9.3 Yn ogystal ag ystyried newidiadau rydym wedi'u hargymell yn yr adroddiad hwn, rydym hefyd am weld cynnydd yng Nghymru tuag at roi diwygiadau mwy sylweddol ar waith mewn dau faes allweddol:

- Gwella'r broses gofrestru etholiadol er mwyn sicrhau bod y broses yn fwy cydgysylltiedig ac wedi'i hintegreiddio â gwasanaethau cyhoeddus eraill ac yn adlewyrchu disgwyliadau dinasyddion yn well
- Moderneiddio a symleiddio cyfraith etholiadol, yn unol ag argymhellion Comisiynau'r Gyfraith yn y DU yn 2016

9.4 Rhoddodd Deddf Cymru 2017 gyfrifoldeb am bolisi a deddfwriaeth mewn perthynas â gweinyddu etholiadau llywodraeth leol yn y dyfodol, yn ogystal ag etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i Lywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad. Bellach ceir cyfleoedd i Lywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad ddatblygu agenda newid uchelgeisiol. Edrychwn ymlaen at gyfrannu at yr ymgynghoriad presennol ar etholiadau llywodraeth leol a fydd, gobeithio, yn nodi diwygiadau mwy sylweddol i weithdrefnau etholiadol er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn parhau i fodloni disgwyliadau dinasyddion.

Atodiad A: Methodoleg ymchwilio

Data Etholiadol

Casglodd y Comisiwn Etholiadol ddata gan Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys y Datganiad Ynghylch Pleidleiswyr Absennol a ffurflen data ychwanegol, a oedd yn cynnwys data yn ymwneud â chofrestru etholiadol, y nifer a bleidleisiodd, pleidleisio absennol a phapurau pleidleisio a wrthodwyd.

Arolwg o farn y cyhoedd

Rhwng dydd Gwener 5 Mai a dydd Llun 5 Mehefin 2017, holodd ICM sampl o 451 o oedolion dros 18 oed ledled Cymru. Cafodd y data eu pwysoli er mwyn cyfateb i broffil y boblogaeth.

Cynhaliwyd yr arolwg hwn dros y ffôn gan ddefnyddio methodoleg deialu digidau ar hap a chwotâu demograffig. Mae hyn yn golygu y cafodd rhifau ffôn eu dewis ar hap ar gyfer cynnal cyfweiliadau. Roedd 85% o'r sampl yn rhifau llinell dir ac roedd 15% yn rhifau ffôn symudol.

Mae rhagor o wybodaeth am ein hymchwil o farn y cyhoedd i'w gweld ar [ein gwefan](#).

Ymchwil olrhain ymgyrch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd

Cynhaliwyd gwaith maes gan ICM, a holodd gyfanswm o 2,435 o bobl ledled Cymru fel rhan o ymchwil olrhain ymgyrch:

- **Ymchwil cyn yr ymgyrch** a gynhaliwyd rhwng 15 Chwefror a 7 Mawrth, cyn lansio ein gweithgarwch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd. [N=1,209]
- **Ymchwil ar ôl cofrestru** a gynhaliwyd ar ôl y terfyn amser ar gyfer cofrestru i bleidleisio ar 17 Ebrill a chyn y diwrnod pleidleisio, gyda'r nod o fesur effaith ein hymgyrch gofrestru. [N=1,226]

Cynhaliwyd yr holl gyfweiliadau ar-lein. Gwnaethom orsamplu cynulleidfaoedd targed allweddol yr ymgyrch er mwyn sicrhau y gallem asesu perfformiad ein cynnwys ymhlith y grwpiau hyn yn hyderus. Y cynulleidfaoedd hyn oedd: pobl rhwng 18 a 34 oed, pobl sydd wedi symud tŷ yn ddiweddar, pobl sy'n rhentu eiddo preifat, myfyrwyr a grwpiau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae'r holl ffigurau cyffredinol a nodwyd wedi'u pwysoli er mwyn cynrychioli cwotâu yn genedlaethol.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gweithgarwch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd i'w gweld ar [ein gwefan](#).